# GWIRFODDOLI Y TU HWNT I'R PANDEMIG

PROSES RECRIWTIO GWIRFODDOLWYR AR Y CYD

WcVA CGGC

helplu helpforce

age Cymru

## PARC CENEDLAETHOL ERYRI DAN GOODWIN A MARY-KATE JONES

PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK

GYDA PHARTNERIAID, GWNAETHOM SEFYDLU SYSTEM RHEOLI GWIRFODDOLWYR AR-LEIN YN DEFNYDDIO'R FED-DALWEDD 'BETTER IMPACT' (BIS)

MEDDALWEDD 'BETTER IMPACT'

PROFFIL

CAFODD BAWB HYFFORDDIANT AR BIS I SICRHAU CYSONDEB A RHEOLI ANSAWDD

ROEDD ANGEN LEFEL UCHEL O YMDDIRIEDAETH A CHYDWEITHREDIAD I AGOR Y FEDDALWEDD BIS I FUDIADAU LLUOSOG

GWNAETH YR HOLL BARTNERIAID GEFNOGI EU GWIRFODDOLWYR I GOFRESTRU AR BIS AC ADEILADU PROFFIL, FEL EU BOD I GYD YN YR UN LLE.

CYFATHREBWYD Â GWIRFODDOLWYR YN BENNAF AR E-BOST DRWY'R SYSTEM BIS, A THRWY NEGESEUON TESTUN A GALWADAU FFÔN.

E-BOST

ROEDD LLAWER O GYFATHREBU Y TU ÔL I'R LLENNI. MAE GAN WA-HANOL FUDIADAU EU FFORDD EU HUNAIN O WNEUD PETHAU, FELLY SICRHAWYD FOD GENNYM BROSES GYTUNEDIG AR WAITH.

CYFATHREBU

ROEDD GENNYM EISOES SYLFAEN GREF O WIRFODDOLWYR A GWNAETHOM WEITHIO GYDA PHARTNERIAID I ADEILADU CYDBERTHNASAU A GRWPIO EIN HOLL WIRFODDOLWYR GYDA'I GILYDD.

ROEDD CYFARFODYDD PARTNER WYTHNOSOL I GYNLLUNIO, CYFATHREBU A DATRYS PROBLEMAU YN RHAN HANFODOL O SICRHAU Y BYDDAI'N GWEITHIO.

Cymdeithas Eryri
Snowdonia Society

PARTNERIAETH

AWGRYMIR EICH BOD YN DECHRAU'N FACH; GWEITHIO GYDA 2-3 MUDIAD AC ADEILADU DROS AMSER, YN HYTRACH NA CHAEL LLAWER O BARTNERIAID AR Y DECHRAU.

## GWIRFODDOLI CYMRU

'GWIRFODDOLI CYMRU' YW'R PLATFFORM AR-LEIN SY'N CEFNOGI RECRIWTIO A LLEOLI GWIRFODDOLWYR. COFRESTRWCH EICH CYFLEOEDD GWIRFODDOLI I GYRRAEDD CANNOEDD O WIRFODDOLWYR.

Gwirfoddoli Cymru
Volunteering Wales

WWW.GWIRFODDOLICYMRU.NET
OS NAD YDYCH AR Y PLATFFORM ETO SIARADWCH Â NI A GALLWN EICH HELPU I DDECHRAU ARNI.

## AGE CYMRU – BRYONY DARKE

ROEDDEM EISIAU GALLU RHANNU GWIRFODDOLWYR AR DRAWS Y BARTNERIAETH (MEWN YMATEB I ANGEN A CHYFLE), A'I GWNEUD HI'N HAWS I WIRFODDOLWYR 'DEITHIO' RHWNG PROSIECTAU.

PASBORT GWIRFODDOLWYR

ROEDDEM HEFYD EISIAU SAFONI EIN PROSES RECRIWTIO.

FEL ARWEINYDD PROSIECT SEFYDLWYD GWEITHGOR YN CYNNWYS STAFF A GWIRFODDOLWYR I EDRYCH AR YR HYN SYDD EISOES YN EI LE.

GWEITHGOR

GWNAETHOM GYNNWYS GWIRFODDOLWYR A STAFF O BOB RHAN O'R BARTNERIAETH A CHYNNWYS EU HADBORTH YN EIN GWAITH.

MAE GWIRFODDOLWYR YN YMUNO Â 'CHARITY LOG' NAWR A GALLWN GREU GWIRFODDOLWYR GYDOL OES. PAN FYDD PROSIECT YN DOD I BEN GALLWN RANNU CYFLEOEDD A'U SYMUD I BROSIECTAU NEWYDD.

CHARITY LOG

TRWY DDEFNYDDIO 'CHARITY LOG' GALLWN ATGYFEIRIO GWIRFODDOLWYR I'N GILYDD YN ALLANOL A CHYNNWYS CANIATÂD.

GDPR

## CYDGYNHYRCHU

GWNAETHOM YMGYNGHORI I WELD SUT GALLEM GYNNWYS GWIRFODDOLWYR ORAU. NID OEDDENT EISIAU CAEL EU CYNNWYS MEWN GWEITHGORAU OND YN HAPUS I WNEUD AROLYGON AR-LEIN.

AROLWG

ROEDD UN PARTNER WEDI DATBLYGU FFURFLEN GAIS AR 'MICROSOFT FORMS'. DEFNYDDIO HWN NAWR AR DRAWS YR HOLL BARTNERIAETH. MWY CYNHWYSOL OHERWYDD GALL POBL EI DEFNYDDIO'N HAWDD AR EU FFONAU A GELLIR CYNNWYS FIDEOS...

CAIS

CRËWYD CYLCHLYTHYR YN RHANNU CYFLEOEDD GWIRFODDOLI, FEL NAD YDYM YN HYSBYSEBU YN EIN LLEOLIADAU BACH EIN HUNAIN YN UNIG.

CYLCHLYTHYR

VISUAL MAP: ©SCARLET DESIGN INT. LTD. 2022